Y Plygain

Nos Fercher, Rhagfyr 17, aeth parti bach o blant i Eglwys Sant Ioan i gymryd rhan yn Y Plygain. Cafwyd datganiad hyfryd ganddynt a chwarae teg iddynt am droi allan ar noson mor gâs.

Canu carolau

Nos Wener, Rhagfyr 19, bu'r plant a'r athrawon yn canu carolau o gwmpas y pentref. Cawsom groeso cynnes gan bawb a chasglwyd £120 tuag at apêl Asthma Ysbyty Bron-glais.

Myfyrwyr

Erbyn hyn mae tymor newydd wedi dechrau ac rydym yn croesawu ein 4 myfyriwr, Miss Carys Davies, Miss Nerys Davies, Miss Ruth Davies a Mr Llyr Meredith yn ôl atom. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yn ein plith.

Croeso'n ôl

Braf yw gweld Mrs Carole Mitchell yn ôl yn yr ysgol. Cafodd groeso mawr gan y plant wrth iddi ddychwelyd ond cofiwch Mrs Mitchell rhaid cymryd gofal! Yn ystod absenoldeb Mrs Mitchell cawsom wasanaeth Miss Mari Morgan ac rydym yn ddiolchgar iawn iddi am ei holl waith caled.

Gwyddbwyll

Mewn cystadleuaeth gwyddbwyll yn IGER yn ddiweddar daeth llwyddiant i ran dau o ddisgyblion yr ysgol. Enillodd